# TEGIDON gan W. J. Edwards

Bydd yn dda i bawb a ddaw i'r Bala i'r Brifwyl wybod fod yr hen dref wedi bod yn gartref i nifer o argraffwyr amlwg a bod y brodyr Gwyn ac Eifion Evans yn parhau'r traddodiad clodwiw yng Ngwasg y Sir. Un o'r argraffwyr mwyaf adnabyddus oedd Robert Saunderson a ddaeth i'r Bala i wasanaethu Thomas Charles. Ato ef ar ôl iddo fod yn Ysgol Tŷ-tan-domen, yr aeth John Phillips 'Tegidon' yn brentis, ac wedi dysgu'i grefft symudodd i Gaer i swyddfa John Parry, y gŵr amryddawn hwnnw a gyfrannodd gymaint i fywyd crefyddol a llenyddol Cymru yn hanner gyntaf y ganrif ddiwethaf.

Yno y cyhoeddid *Goleuad Cymru* a'r *Drysorfa*, a Tegidon fu'n arolygu'r wasg am gyfnod gan gyfrannu hefyd i'r gwahanol gyhoeddiadau. Tua 1850 symudodd i Borthmadog i fod yn ysgrifennydd i'r *'Welsh Slate Company'*, a bu wedyn yn brif oruchwyliwr y cwmni am ugain mlynedd. Ond nid anghofiodd ei hen grefft ac ef a gynorthwyodd Robert Isaac Jones 'Alltud Eifion', i gychwyn argraffwasg yn Nhremadog y tu cefn i'w siop fferyllydd ym 1854. Cyhoeddwyd llu o bapurau a llyfrau yn y wasg ac efallai mai'r cynnyrch pwysicaf oedd y gyfrol a gyhoeddwyd ym 1892, *Y Gestiana, sef Hanes Tre'r Gest.*

Ar wahân i gynorthwyo Alltud Eifion gyda'i wasg fe sgrifennodd Tegidon yn gyson i'r *Drysorfa, Y Gwyliedydd, Y Geiniogwerth, Seren Cymru, Y Methodist* a'r *Traethodydd.* Bu'n is-olygydd *Y Gwyliedydd*, ac yn olygydd barddoniaeth *Goleuad Cymru*, am flynyddoedd. Cyfansoddodd gryn swm o farddoniaeth ac yn y mesurau rhydd y canai gan mwyaf. Daeth un o'i ganeuon, 'Hen Feibl Mawr Fy Mam', yn boblogaidd iawn a chlywir ei chanu o hyd. Cyfieithiodd gerdd enwog Wordsworth, 'We Are Seven', i'r Gymraeg hefyd.

Ond fel awdur englyn enwog go arbennig y cofir Tegidon a'r englyn hwnnw a gafodd sylw Gwilym R. Jones yng ngholofn 'Fy Hoff Englyn' yn *Barddas*, Chwefror 1977. Mae'n cychwyn drwy sôn am y seiat a gafodd yng nghwmni Robert Williams Parry mewn caffi yn Lerpwl. Fel yr âi'r seiat rhagddi gofynnodd Bardd yr Haf i Gwilym R. beth a wyddai am Tegidon. 'Fe ddylai fod genti gryn ddiddordeb ynddo fo,' meddai 'bu yn y byd golygyddol ac yn argraffwr tua chanol y ganrif ddiwethaf. Fo sgrifennodd "Hen Feibl Mawr Fy Mam", ond nid dyna pam rydw i'n 'i enwi fo, ond am mai fo, yn fy marn i, ydi cyfansoddwr yr englyn gorau yn yr iaith Gymraeg.'


Gan y bydd llawer o eisteddfodwyr am ymweld â mynwent Eglwys Beuno Sant yn Llanycil yn ystod yr ŵyl, yno ar garreg fedd ym mhen agosaf i Lanuwchllyn y fynwent y gwelir yr englyn nodedig. Fe'i cyfansoddwyd gan Tegidon (yntau wedi'i gladdu yn yr un llecyn) i gofio am blentyn dwyflwydd fu farw ym 1818, a'i rieni fu byw am ymron ddeugain mlynedd i alaru ar ei ôl. Dyma'r englyn i goffáu David Jones a Phylip a Grace, ei rieni:

*Yr eiddilaf îr ddeilen — a syrthiai*
*Yn swrth i'r ddaearen;*
*Yna y gwynt, hyrddwynt hen,*
*Ergydiodd ar y goeden.*

Fe ddywed Gwilym R. ei fod yn 'englyn delweddog, os bu englyn delweddog erioed, a chysylltiad ingol-iasol rhwng y tair delwedd sydd ynddo — yr 'îr ddeilen' (y mab), 'y goeden' (y tad) a'r 'hyrddwynt hen' (a fu gwell darlun o'r angau?). Y mae camp ar ansoddeiriau Tegidon yn yr englyn hwn: 'eiddilaf', 'îr', 'swrth' a 'hen'. Y mae cannoedd o feirdd wedi defnyddio'r ansoddair 'hen' mewn englynion a cherddi eraill ac erbyn hyn aeth yn ystrydebol ond nid oedd cymaint o lawer o draul wedi bod arno pan ddefnyddiwyd o gan Tegidon, ac onid ydyw wedi ei glensio am byth yn ei gysylltiad yma â'r hyrddwynt mwyaf difaol sy'n bod? Y mae yn yr englyn hefyd homer o ferf: 'ergydiodd'.

'Byth er pan gynhaliwyd y seiat fach honno rhwng y mwyaf o'n beirdd a minnau, yr englyn hwn gan y bardd-argraffydd o Benllyn yw fy ffefryn innau hefyd.'

Er i O. M. Edwards gynnwys rhai o gerddi Tegidon yn *Beirdd y Bala*, (Cyfres y Fil) gresyn na bai wedi cynnwys yr englyn godidog yn ogystal.




*Wyneb-ddalen* Beirdd y Bala *(Cyfres y Fil)*


## YN EISIAU

***Welsh Music / Cerddoriaeth Cymru.*** Cylchgrawn Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru (Gwasg Morgannwg), 1994, Cyfrol I-III. Cysyllter â: **Thomas Arwyn Evans (01248) 364040.**

## SIOP LYFRAU'R HEN BOST

45 STRYD FAWR
BLAENAU FFESTINIOG
Gwynedd LL41 3AA
Ffôn: (01766) 831802

LLYFRAU NEWYDD, AIL LAW A HYNAFIAETHOL

1. Cynddelw: *Manion Hynafiaethol*, 1873 .......... £5.00
2. Thomas J.: *Y Wyddor Ddiweddar o Iachau Clefydau*, 1873 £10.00
3. Parry, J. W.: *Caebraichycafn, Yr Ymdrafodaeth*, 1875.. £17.00
4. Jones, R. E.: *Bradychwyd y Ddeiseb* .......... £3.00
5. Lewis, Saunders: *Save Wales by Political Action* .......... £4.00
6. *Rhestr Llyfrau* Gwasg y Brython, Medi 1957 .......... £2.50
7. Stapleton-Cotton, R.: *Gerddi Bwthynod*, 1910 .......... £9.50
8. Derfel, R. J.: *Y Bardd Cristnogol*, 1854 .......... £5.50
9. Lewis, Saunders: *Local Authorities and Welsh Industry*. £4.00
10. Roberts, Kate *et al: Wel! Wel!* 3ydd arg .......... £4.00
11. Roberts, Kate *et al: Y Canpunt* .......... £4.00
12. Evans, Beriah Gwynfe: *The Bardic Gorsedd, Its History and Symbolism* .......... £8.00
13. Davies, H.: *Llawlyfr yr Harmonium a'r Piano*, 1891.... £6.50
14. Williams, D. J.: *Llyfrau Cymraeg i Ysgolion Elfennol*, 1928 £4.00
15. *Fresher's Guide:* University of Wales, Aberystwyth, 1922 £3.50
16. *Elfenau Rhifyddiaeth*, 1861. Heb gloriau .......... £12.00
17. Atkinson, Blance: *Ruskin's Social Experiment at Barmouth* £20.00
18. Jones, G.: *Llanfairfechan and Aber*, 1901. Heb gloriau £5.00
19. Williams, A. Wynn: Ffynnon Cegin Arthur. Heb gloriau £12.00
20. Southall, J. E.: *The Welsh Language Census of 1891*. 1895 £12.00

**Codir yn ychwanegol am gludiad**

**BYDDWN YN YR EISTEDDFOD YN Y BALA AC EDRYCHWN YMLAEN AT GAEL CROESAWU HEN GYFEILLION AC AT GYFARFOD CYFEILLION NEWYDD**